**Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2025**

Mae'r Memorandwm Esboniadol hwn wedi'i baratoi gan yr Adran Drafnidiaeth a Chysylltedd Digidol ac fe'i cyflwynir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

**Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Ken Skates AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**

**18 Mehefin 2025**

**RHAN 1**

**1. Disgrifiad**

1.1 Mae Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2025 ("yr offeryn hwn") yn diwygio Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau 2023 ("Gorchymyn 2023") a Gorchymyn Cynlluniau Masnachu Allyriadau Cerbydau (Diwygio) 2024 ("Gorchymyn 2024") i nodi sut y gellir arfer darpariaethau Rheoliad (EU) 2019/631 a arbedwyd gan Orchymyn 2023 a 2024 at ddibenion gweinyddu blynyddoedd cydymffurfio blaenorol. Mae'r offeryn hwn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol i gyfrifo'r targedau allyriadau CO2 penodol ar gyfer gweithgynhyrchwyr cerbydau o dan Reoliad (EU) 2019/631 gan ddefnyddio mewnbynnau o werthoedd sy'n deillio o'r DU neu'r UE mewn rhannau penodol o'r cyfrifiad perthnasol.

**2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Mae Rhan 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 (CCA) yn nodi bod rhaid sefydlu cynllun masnachu allyriadau sy'n berthnasol i Loegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon drwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Rhagnodir y weithdrefn briodol ar gyfer Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor gan adran 48 i'r CCA. Gan nad yw'r offeryn hwn yn darparu ar gyfer unrhyw un o'r materion a nodir yn adran 48(3) o'r CCA, mae'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol yn rhinwedd adran 48(5).

2.2 Gan y bydd yr offeryn hwn yn destun craffu gan Seneddau'r DU, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ni ystyrir ei bod yn rhesymol ymarferol i'r offeryn hwn gael ei wneud na'i osod yn ddwyieithog.

2.3 Ochr yn ochr â'r ymgynghoriad, comisiynodd Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig y Pwyllgor Newid Hinsawdd ("CCC") ar y cyd i roi cyngor ar yr offeryn hwn yn unol ag adran 48 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008. Cyhoeddwyd y cyngor hwn gan y CCC ar eu gwefan. Letter: Advice on zero-emissions vehicle (ZEV) mandate and carbon dioxide regulations for new cars - Climate Change Committee.

**3. Cefndir deddfwriaethol**

3.1 Mae'r pŵer i wneud offeryn i roi cynllun masnachu ar waith sy'n ymwneud ag allyriadau nwyon tŷ gwydr yn adran 44 o Ddeddf Newid Hinsawdd 2008 ("CCA") yn arferadwy gan "yr awdurdod cenedlaethol perthnasol" (yr Ysgrifennydd Gwladol, Gweinidogion yr Alban, Gweinidogion Cymru, Adran Amaethyddiaeth, Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon),[1] mewn perthynas â materion o fewn eu

[1] Mae'r diffiniad o awdurdod cenedlaethol perthnasol wedi'i nodi yn adran 47 o Ddeddf CCA 2008.

- Gweinidogion yr Alban yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn perthynas â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd yr Alban.
- Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn perthynas â materion sydd— (a) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru, neu (b) yn ymwneud â chyfyngu neu annog cyfyngu ar weithgareddau yng Nghymru sy'n cynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac eithrio gweithgareddau mewn cysylltiad ag olew ar y môr ac

cymhwysedd deddfwriaethol. Mae'r offeryn hwn yn ymwneud â pholisi hinsawdd ac felly mae wedi'i ddatganoli.

3.2 Mae gweithdrefnau San Steffan a Seneddau Datganoledig ar gyfer gwneud cynllun masnachu ledled y DU wedi'u nodi yn Atodlen 3 i'r CCA. Mae paragraff 9 o'r Atodlen honno'n galluogi cynllun o'r fath i gael ei sefydlu trwy Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor. Yn unol â pharagraff 12 o Atodlen 3 i'r CCA, mae'n ofynnol gosod yr offeryn hwn yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, a Senedd y DU. Os bydd unrhyw un o'r gweinyddiaethau'n gwrthwynebu'r offeryn hwn, gellid ei ddirymu, sy'n golygu na ellir gwneud dim byd pellach oddi tano a gall y Brenin ei ddirymu.

**4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Ym mis Mawrth 2021, sefydlodd y Senedd darged statudol Cymru o allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net yn 2050. [2] Mae Cymru Sero Net: Cyllideb Carbon 2, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2021, yn dangos pwysigrwydd lleihau allyriadau o drafnidiaeth yng Nghymru fel rhan o'r uchelgais hon a chefnogaeth Llywodraeth Cymru i ymestyn targedau ar gyfer y defnydd o gerbydau trydan. [3]

4.2 Mae Rheoliad (EU) 2019/631 ("y Rheoliad") yn gyfraith a gymathwyd sy'n gosod targedau allyriadau CO2 penodol blynyddol ar gyfer gweithgynhyrchwyr sy'n cofrestru ceir newydd a cherbydau masnachol ysgafn ("faniau") yn y DU. Cyfrifir targedau ar sail maint fflyd cerbydau'r gweithgynhyrchydd, yn unol â fformiwla tair rhan a geir yn Atodiad I i'r Rheoliad. Os yw'r gweithgynhyrchydd yn mynd dros ei darged, mae'n atebol i dalu premiwm allyriadau gormodol.

4.3 Cyn Ymadael â'r UE, cynhaliodd Llywodraeth y DU (DfT) sawl ymgynghoriad a gweithdy ar gadw'r Rheoliad a sut y dylai weithio ar ôl iddo gael ei gymathu i gyfraith y DU. Yn ymateb y Llywodraeth i ymgynghoriad 2020, cadarnhaodd yr Adran Drafnidiaeth y byddai gwerthoedd yr UE yn cael eu defnyddio o fewn dwy fformiwla gyntaf Atodiad I wrth gyfrifo'r targed allyriadau CO2 penodol. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod y Rheoliad yn parhau i fod o leiaf mor uchelgeisiol ar ôl Ymadael â'r UE ag yr oedd o'r blaen – gan y byddai'r un canlyniad yn cael ei gynhyrchu o dan gynllun y DU ag y byddai wedi'i gynhyrchu o dan gynllun yr UE. Ailadroddodd canllawiau[4] a gweithdai'r dull hwn.

---

allyriadau nwyon tŷ gwydr, ac eithrio gweithgareddau mewn cysylltiad ag archwilio ac ecsbloetio olew a nwy ar y môr.

- Yr Ysgrifennydd Gwladol neu'r adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon yw'r awdurdod perthnasol mewn perthynas â materion a gedwir yn ôl o fewn ystyr Deddf Gogledd Iwerddon 1998.
- Yr adran berthnasol yng Ngogledd Iwerddon yw'r awdurdod perthnasol mewn perthynas â phob mater arall o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Gogledd Iwerddon.
- Yr Ysgrifennydd Gwladol yw'r awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn perthynas â phob mater arall.

[2] Rheoliadau Amgylchedd Cymru (Cymru) 2026 (Diwygio Targedau Allyriadau 2050) 2021

[3] Sero Net Cymru: Cyllideb Garbon 2

[4] (Adran 7. Cyfrifo targedau allyriadau a pherfformiad)

4.4 Ers ei gymathu i gyfraith y DU, mae'r Rheoliad wedi'i ddiwygio nifer o weithiau. Yn arbennig, diwygiodd O.S. 2020/1418 ac O.S. 2021/898 gwmpas (Erthygl 2) y Rheoliad i Brydain Fawr ac yna i'r DU (yn y drefn honno).

4.5 Mae anghysondeb wedi'i nodi ers hynny yn null yr Adran Drafnidiaeth ( defnyddio rhai gwerthoedd yr UE) o ymdrin â’r targedau allyriadau CO2 penodol gan mai dim ond gwerthoedd y DU y mae cwmpas y Rheoliad yn caniatáu eu defnyddio wrth gyfrifo'r targedau perthnasol, yn groes i fwriad y polisi a'r dehongliad a gyflwynwyd mewn canllawiau.

4.6 I unioni’r anghysondeb hwn, mae'r offeryn hwn yn galluogi gweithgynhyrchwyr i dderbyn y targed allyriadau CO2 penodol uwch naill ai o'r dull sy'n deillio o'r UE (fel y'i cyfathrebwyd yn flaenorol gan yr Adran Drafnidiaeth) neu ddull sy'n deillio o'r DU (fel y'i darllenir yn fanwl o'r Rheoliad).

4.7 Dirymwyd y Rheoliad i raddau helaeth, yn amodol ar arbedion ar gyfer monitro a chydymffurfiaeth ar gyfer blynyddoedd cydymffurfio blaenorol, gan Orchymyn 2023 a Gorchymyn 2024. Unwaith y bydd y monitro a'r cydymffurfiaeth wedi'u cwblhau ar gyfer 2021-2023 yn y DU a 2024 yng Ngogledd Iwerddon, ni fydd y Rheoliad fel y mae'n rheoleiddio allyriadau CO2 yn berthnasol mwyach.

4.8 Felly mae'r offeryn hwn yn darparu mesur dros dro i gywiro'r anghysondeb yn y modd y gosodwyd targedau ar gyfer blynyddoedd cydymffurfio 2021-2023 a 2024, cyn i'r rhwymedigaethau lleihau CO2 yn Rheoliad (EU) 2019/631 gael eu disodli'n llawn o 2025 ymlaen.

4.9 Mae Gorchymyn 2023 yn sefydlu cynlluniau masnachu sy'n gosod targedau ar gyfer cofrestru ceir a faniau allyriadau di-sero newydd bob blwyddyn ac mae hefyd yn gweithredu targed sylfaenol CO2 i gyfyngu ar allyriadau CO2 o geir a faniau allyriadau di-sero newydd. Mae targedau allyriadau CO2 penodol gweithgynhyrchwyr o'r Rheoliad yn llywio'r llinellau sylfaen CO2 ar gyfer Gorchymyn 2023.

**5. Ymgynghoriad**

5.1 Ar 24 Rhagfyr 2024, lansiodd Llywodraeth y DU, yr Adran Seilwaith (Gogledd Iwerddon), Llywodraeth Cymru, a Llywodraeth yr Alban ymgynghoriad cyhoeddus[5] yn ceisio barn ar nifer o gynigion yn ymwneud â'r newid i geir a faniau allyriadau di-sero, gan gynnwys y cynnig i gywiro'r anghysondeb deddfwriaethol. Fel rhan o hyn, cynhaliodd yr Adran Drafnidiaeth gyfres o weithdai gyda'r diwydiant hefyd, gan gynnwys un gweithdy a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar y cynnig i gywiro'r anghysondeb. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 18 Chwefror 2025.

5.2 Derbyniodd yr ymgynghoriad dros 600 o ymatebion, gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys gweithgynhyrchwyr cerbydau, gweithredwyr pwyntiau gwefru, a sefydliadau anllywodraethol.

[5] https://www.gov.uk/government/consultations/phasing-out-sales-of-new-petrol-and-diesel-cars-from-2030-and-supporting-the-zev-transition

5.3 Gofynnodd yr ymgynghoriad y cwestiwn canlynol: “Cwestiwn 17: A ydych chi'n cytuno â'r cynnig i ganiatáu i dargedau cyfeirio allyriadau penodol WLTP sy'n deillio o'r DU neu'r UE fod yn berthnasol o 2021-2023 yn y Deyrnas Unedig, ac yn 2024 yng Ngogledd Iwerddon? Os na, pam?”

5.4 Cytunodd cyfran sylweddol o ymatebwyr y diwydiant i'r cwestiwn hwn â'r cynnig a nodwyd yn yr ymgynghoriad i ganiatáu mewnbynnau'r UE a'r DU at ddibenion cyfrifo targedau allyriadau penodol o dan y Rheoliad. Nododd y diwydiant a rhanddeiliaid unigol y byddai'r dull a ffefrir yn arwain at ganlyniad teg i bob gweithgynhyrchydd ac y byddai'n arwain at gyhoeddi targedau sylfaenol Gorchymyn 2023.

5.5 Nododd rhai rhanddeiliaid y diwydiant y dylid darparu sicrwydd ynghylch y cynnig cyn ffenestr fasnachu Tachwedd 2025 o dan Orchymyn 2023. Nododd ymatebydd o'r diwydiant na ddylai canlyniad y cynnig hwn beryglu cydymffurfiaeth, na threfniadau masnachol gweithgynhyrchwyr sy'n cydymffurfio â'r rheoliad fel cyfranogwr mewn cronfa geir.

5.6 Cyhoeddwyd ymateb ar y cyd y llywodraeth i'r ymgynghoriad wedi hynny ar 7 Ebrill 2025 a nododd y byddai'r llywodraeth yn cyflwyno rheoliadau i weithredu'r cynnig cyn gynted â phosibl a chyn ffenestr fasnachu Tachwedd 2025. Gellir dod o hyd i fanylion llawn yr ymgynghoriad ar-lein.

## RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Gan nad yw'r offeryn hwn yn newid y polisi yng Nghymru na'i effaith yng Nghymru yn sylweddol, nid oes Asesiad Effaith Reoleiddiol (RIA) wedi'i baratoi. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer Gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth. Asesodd yr RIA ar gyfer Gorchymyn 2023 effeithiau tebygol y ddeddfwriaeth arfaethedig yng Nghymru ac roedd yn seiliedig ar Ddadansoddiad Cost a Budd o effaith y cynlluniau ar draws y DU gyfan ac felly mae'n dal yn briodol.

Mae Llywodraeth y DU wedi cynhyrchu Dadansoddiad Cost a Budd yn ymwneud â'r newidiadau sy'n gysylltiedig â'r offeryn hwn a gyhoeddir ochr yn ochr â'i femorandwm esboniadol ar wefan legislation.gov.uk.

### Effeithiau

I grynhoi, mae Dadansoddiad Cost a Budd Llywodraeth y DU yn dod i'r casgliad y gall gweithgynhyrchwyr, o ganlyniad i'r gwelliant rheoleiddiol hwn, dderbyn targedau allyriadau penodol wedi'u diweddaru ar gyfer 2021 o dan Reoliad (EU) 2019/631.

Gall hyn newid eu llinell sylfaen CO2 a osodwyd o dan orchymyn VETS. Disgwylir iddo gynyddu eu targed (h.y. ei gwneud hi'n haws cydymffurfio ag ef, os yw popeth arall yr un fath).

Gallai targed fflyd uwch ar gyfer 2021 weld rhai gweithgynhyrchwyr yn derbyn targed CO2 uwch o dan y VETS. Gyda thargedau CO2 VETS uwch, gallai gweithgynhyrchydd:

• Gynyddu dwyster allyriadau'r cerbydau allyriadau di-sero newydd (nid ZEV) a werthir ganddynt yn y dyfodol, gan dybio bod eu cyfartaledd presennol nad yw'n ZEV yn is na'r targed presennol.
• Trosglwyddo cyfran mwy o'r orgydymffurfiaeth CO2 bosibl i leihau'r cyflenwad o ZEV o dan y cynllun ZEV.
• Neu fasnachu gyda gweithgynhyrchwyr eraill i leihau cydymffurfiaeth CO2 mewn mannau eraill yn y farchnad.

Gallai pob un o'r opsiynau hyn gynyddu lefel yr allyriadau CO2 o'r fflyd gwerthu newydd a lleihau costau cydymffurfio rheoleiddiol i weithgynhyrchwyr ar draws y farchnad.

## Allyriadau $CO_2$

Amcangyfrifir y bydd y nenfwd ychwanegol yn y targedau $CO_2$ yn cynyddu allyriadau carbon cyfartalog y ceir a'r faniau allyriadau di-sero a werthir yn dilyn y newid i'r llinell sylfaen (sy'n gweld allyriadau'n gostwng oherwydd VETS). Amcangyfrifir y newidiadau mewn allyriadau sydd heb eu masnachu ar lefel y DU ac a osodir yn erbyn cyfnodau Cyllideb Carbon y DU, yn Ffigur 3. Gellir mynegi'r newidiadau cadarnhaol hyn hefyd mewn termau negyddol, fel 'arbedion coll'.

| MtCO2e | CB4 | CB5 | CB6 | 2024-2050 |
|---|---|---|---|---|
| **Car** | 0.0 | 0.0 | 0.1 | 0.3 |
| **Fan** | 0.1 | 0.3 | 0.3 | 1.6 |
| **Cyfanswm** | 0.1 | 0.3 | 0.4 | 1.8 |

**Ffigwr 1 Effeithiau Carbon DU – newid mewn allyriadau pibell wastraff blynyddol cyfartalog a chyfanswm.**